



Llais y Llan Awst 2021

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf Medi 26 2021

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Llais y Llan



Mantell Lwyd y Maes (Clare Bish)



Mantell Ceidwad y Glwyd (Clare Bish)

DID YOU KNOW

WHEN PARENTS ARRIVE ON A RNLI LIFEGUARDED BEACH THEY SHOULD TAKE THEIR CHILD/CHILDREN TO THE LIFEGUARD HUT WHERE THEY WILL EACH BE GIVEN, FREE OF CHARGE, A WRISTBAND. THE PARENTS MOBILE NO. CAN BE WRITTEN ON WRISTBAND IN WATERPROOF INK BEFORE IT IS AFFIXED TO THE CHILD.

THE CHILD SHOULD BE TOLD TO GO TO THE LIFEGUARD HUT IF 'LOST' AND LIFEGUARD WILL PHONE MOBILE NUMBER.

ALL RNLI LIFEGUARDS ARE DRB CHECKED.

**Peniel U12s
(2021/22 Season)
Are looking for new
players to join their
squad.
Please get in touch
with their Team
Manager - Emma on
07773 034461 for
registration forms.**



Bwa'r Arch yn creu pont o Lansteffan i Lanyfferi
Arwyn Thomas



Afon Twyi Ffynnu



Gwennol Ddu gan David Moreton



Simple Swift Box



Ermin Gwyn (Ray Davies)



Neidr Ddefaid wrthi yn bin sbwriel y rhandir (Ray Davies)



Gweilch dros Lanpumsaint



Lleidr bach cyfrwys

Gweilch Bell Boeing V-22

Credodd rhai o drigolion Llanpumsaint eu bod yn breuddwydio pan welwyd tair o rain yn hedfan drosodd ar Nos Iau 27ain o Orffennaf. Yn ôl adroddiad ar Facebook Llanpumsaint mae hon yn olygfa brin iawn ac yn hynod o stwrilyd.

Awyren Ryfel Americanaidd yw'r Bell Boeing V-22 sy'n alluog i neidio'n syth i'r awyr a glanio'r un mor rhwydd. Mae'n cynnwys elfennau o'r hofrennydd arferol gyda galluoedd cyflymder a phellter awyrennau tyrboprop. Am fwy o wybodaeth a lluniau ewch i

https://en.wikipedia.org/wiki/Bell_Boeing_V-22_Osprey Sandy Mather

Lleidr Cyfrwys

Fel nifer o drigolion Llanpumsaint ni'n hoff o wylio'r adar, ac wedi buddsoddi mewn sawl teclyn bwydo dros y blynyddoedd, gyda llawer ohonynt yn gorffen lan yn ddiwerth yn y bin sbwriel. Daeth y diweddaraf oedd i ateb pob dim i law, felly fe'i llanwyd a hadau blodyn yr haul. Fel y gwelwch mae'r wiwer ddyfeisgar wedi llwyddo i feindio'i ffordd miwn. Gwelodd y camera fe'n agor y glicied gref ac yna gwledda ar y cynnyrch.

Rhaid meddwl eto! - E & S Davies

Curad Calon Llanpumsaint

Dymar criw bach fu'n gyfrifol am sefydlu 4 Adfy wiwr mwn gwahanol safleoedd yn yr ardal

Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ

Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU

Ar wal Fferm yr Henfryn tua Ffynnonhenri SA33 6LD

Tu fas Festri Capel Nebo. SA33 6HN

Gosodwyd blwch newydd i'r Adfywiwr ger y Neuadd a diolch i Galon Cymru amdano am ddim. Diolch hefyd i Wil am ei osod lan a'i gysylltu â chyflenwad trydan y Neuadd.

Os pery rhywun drawiad ar y galon gore gyd pwy gyntaf iddo gael triniaeth yr Adfywiwr er mwyn goroesi. Bydd pob munud yn dyngedfennol ac mi fydd y Gwasanaeth Ambiwlans yn barod i'ch cyfarwyddo dros y ffon nes bod cymorth ychwanegol yn cyrraedd. Gallai hyn ddod o gyfeiriad y Gwasanaeth Tan sydd hefyd/87 wedi eu hyfforddi i ymateb ac aros yno nes i'r Ambiwlans gyrraedd.

Os nad ydych yn siŵr sut i ddefnyddio'r Adfywiwr gallwch fenthyg y pecyn ymarfer oddi wrtho i, a chyfle felly i'w ddangos i aelodau eraill o'ch teulu. Hyd yma ni ddefnyddiwyd un o'r peiriannau yma yn yr ardal, ond pwy a ŵyr pan ddaw galw, felly mae ymarfer ymlaen llaw yn fodd i arbed bywyd. Carolyn Smethurst 01267 253308 info@gwilimill.com

Neuadd Goffa Llanpumsaint & Ffynnonhenri Memorial Hall

Ar y foment mae'r Neuadd yn parhau ar gau ac yn methu cynnal digwyddiadau oherwydd sefyllfa covid-19. Fe fydd y pwyllgor yn cwrdd yn rhithiol dros yr wythnosau nesaf i drafod ffordd ymlaen wrth ail agor y Neuadd yn y dyfodol. Diolch

Gwasanathau Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel Ffynnonhenri

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Caersalem - Os byddwch chi am ddod i'r cwrdd, ffoniwch 253895 am fwy o fanylion

Gofal Traed Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwinytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint - Diweddaraf Yn Orffennaf

Mae'r haf wedi cyrraedd ein Cae Chwarae, ac 'roedd yn hyfryd gweld cymaint o wirfoddolwyr wedi dod i'r glanhau lan ar y 10fed o Orffennaf. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar dros ben i'r holl ymdrechwyr fu wrthi'n tacluso'r lle, gan lanhau'r meinciau, paentio pob ffens ac iet, ynghyd a glanhau'r cyrtiau tennis gogyfer a'r tymor.

Mae gennym hefyd gyhoeddiad cyffroes am ffordd newydd o godi arian. Rhwng y Sul 22ain o Awst a'r 31ain, sef dydd Llun gŵyl y Banc, heriwn yr holl gymuned i gerdded cyfanswm o fil o filltiroedd o amgylch y Cae Chwarae, sef 500 0 laps. Os cewch eich noddi am un lap, neu os oes chwant arnoch gyflawni nifer o laps bob dydd, chi sydd i ddewis. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor wrthi'n dosbarthu ffurflenni noddi, felly cysylltwch os am roi help law. Rhaid bod y traed ar lawr felly dyw ar gefn beic mas ohoni. Byddwn yn rhifo cyfanswm yr holl lapiau ar derfyn y deg diwrnod, a rhennir yr holl elw rhwng uned Poeny Cancr y Fron Llanelli a chronfa cynnal a chadw'r Cae Chwarae. Gobeithio y gwelwn ni chi'n cymerid rhan a daw mwy o wybodaeth am y fenter ar Facebook.

Yn ein cais diweddaraf i Gronfa Fferm Wynt Brechfa gofynnwyd am gyfarpar chwarae newydd ynghyd ag arwyneb bob tywydd a rhagor o ffensio. Ond mae'r Panel am fwy o wybodaeth cyn dod i benderfyniad, felly aethom ati i lunio holiadur i'r gymuned. Felly mae yna gyswllt yn Llais y Llan i'r holiadur yma ac fe welwch wybodaeth hefyd ar Facebook. Unwaith eto rydym yn awyddus i ddenu aelodau newydd i'n Pwyllgor ynghyd ac Ysgrifennydd. Am fwy o wybodaeth i'r perwyl yma neu am ddysgu mwy am ein hymgyrchoedd codi arian ewch i parcllanpumsaint@gmail.com <<mailto:parcllanpumsaint@gmail.com>> neu cymerwch air ag un o'n haelodau.

Arolwg Gwelliannau i'r Cae Chwarae

Mae'r Pwyllgor Lles ac Adloniant yn gwahodd eich sylwadau i'r uchod, oherwydd ein bod yn cynnig am nawdd o Gronfa Fferm Wynt Brechfa at y gwelliannau. Er mwyn cynllunio ein cais hoffem wybod am eich profiadau o ddefnyddio' Cae Chwarae gyda syniadau am wella'r cyfleusterau. Bydd pob ymateb n gyfrinachol.

Dyma'r cyswllt i gwblhau'r arolwg <https://forms.gle/T9n8Z2NyBGqs2yPH9>

Dyddiad cau am ymateb – 15fed Medi 2021

Os am gopi papur o'r arolwg ewch i parcllanpumsaintpark@gmail.com

Neu ofyn i Aaron Jones 253183

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD /CYLCH Y GOEDWIG

Cysylltwch â Verona, Arweinydd ar 07929 431652 neu cylchmeithrinbronwydd@gmail.com

Gwennoliaid, Gwennoliaid Du a Gwennoliaid y Tŷ

Daeth llawer iawn llai o'r adar hynod yma eleni. Cyrhaeddodd y gwenoliaid lan yma ond llawer iawn llai o barau. Os na rywun wedi clywed y gwenoliaid Du eleni, chlywes ddim un eleni. Ni ddaeth yna'r un Wennol y Tŷ i'n hadeiladau y tro hwn. Yn y gorffennol gwelwyd hyd at naw nyth yma ac 'roeddwn yn hoff o glywed eu trydar hapus wrth hedfan dros y clos. Clywais am rywun yn dinistrio nyth am fod tail ar y wal, ond meddyliwch dyma aderyn bach syth wedi hedfan o ganol cyfandir Affrica, dros anialwch y Sahara a chyfandir Ewrop er mwyn nythu yma gyda ni. Braint yw eu croesawu! Ac nid nythu'n rhywle a wnânt ond dychwelid i'r un nyth dro ar ôl tro. Gwneith y gwenoliaid eraill yr un peth hefyd.

Maent yn bwydo ar bryfed wrth hedfan ac yn llyncu llawer. Cyn i'r gwenoliaid Tŷ gyrraedd byddai clêr yn ein poeni ac yn boendod yw rheoli, ond wedi i'r adar gyrraedd aeth yn llai o ben tost. Ond oes yna lai o glêr beth bynnag? Dyna gwestiwn ecolegol arall! Mae'r tri aderyn o'r un teulu ond yn wahanol. Bydd y wennol yn ffafrio beudy neu stordy, felly gwnawn yn siŵr eu bod yn gallu hedfan miwn a mas drwy adael drws ar agor. Bydd Wennol y Tŷ yn hoff o greu cwpanau bach o laid dan y bondo lle bydd cysgod o'r tywydd. Un o'm hoff olygfeydd i'w gweld bolie bach gwyn y cywion yn sbïo mas o'r nyth wrth i'r rhieni gyrraedd gyda bwyd. Golygfa na welais eleni, hyd yma beth bynnag. Maent yn dod a lwc dda i'r tŷ felly gwarchodwch nhw. Ann Pettitt

Brics Codi Arian - A hoffech chi brynu bricsen i roi ar y wal tu fewn i'r Neuadd? Rydyn ni nawr yn derbyn archebion. Mae angen pump archeb arnom ni, cyn i ni fedru prynu'r brics. Pris y brics yw £50 yr un. Am fwy o wybodaeth a ffurflen archebu cysylltwch â Catrin Eldred ar 07772235243.

Bydd Tir Coed, yr elusen coetir a lles yng Nghymru, yn cynnal cyfres o weithgareddau ar gyfer preswylwyr cymunedau o amgylch fferm wynt Gorllewin Coedwig Brechfa.

Bwriedir i'r gweithgareddau, a gefnogir gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa, ddechrau ym mis Medi.

Yn ogystal â sesiynau gweithgareddau coetir, mae Tir Coed hefyd yn cynnig ystod o gyrsiau sgiliau coetir a gwaith coed, gan gynnwys diwrnodau gweithgareddau wedi'u teilwra, cwrs pum niwrnod Croeso i'r Coetir a chwrs sgiliau Gwaith coed coetir 12 wythnos wedi'i achredu'n llawn.

Nod y gweithgareddau hyn a ariennir yn llawn, ac a gynhelir dan arweiniad arweinwyr gweithgareddau Tir Coed, yw cynyddu sgiliau cyflogadwyedd a rhoi hwb i les meddyliol a chorfforol trwy annog pobl i ail-gysylltu gyda natur a threulio amser mewn grwpiau bychain yn y coed.

Am ragor o fanylion am weithgareddau a chysiau coetir Tir coed, cysylltwch â Nancy Hardy trwy e-bostio carms@tircoed.org.uk neu ffonio 07476 899544.

Gwnewch gartref i'r Wennol Ddu

Ers yn blentyn bûm yn caru Gwennoliaid Du. Dyma'r aderyn mwyaf dramatig y gallwch gael uwchben, neu'n well byth yn nythu yn eich to. Sneb arall yn hedfan fel hon ac maent ar yr adain drwy'r amser heblaw pan fyddant yn nythu. Maent mor anhygoel o ystwyth yn heidio mor gyflym a throellog drwy'r awyr fel rhywbeth allan o chwedl. Yn dawnsio mor rhydd â digyfyng drwy'r nen.

Er hynny perthyn tipyn o ddirgelwch iddynt. A ydynt yn cysgu wrth hedfan? Dengys ymchwil eu bod yn esgyn yn bell i'r awyr yn y cyfnos, i ddychwelid lawr gyda'r wawr, ond ganol nos byddant yn dod lawr i fwydo ar bryfed cyn esgyn unwaith eto. Felly odi nhw fyth yn cysgu yn iawn?

Mae cyfrinachau dirgel electroneg wedi datgelu lle maen nhw ymfudo iddo. Ant i lawr dros y môr Atlantic i ogledd a gorllewin Affrica hyd at y Congo. Yna Nadolig yn nwyrain yr Affrig i wario'r gaeaf yno. Mae'r daith yn ôl yn wahanol. Hedfanant am dri neu bedwar diwrnod ar dro o Angola dros y môr i Liberia. Yna wedi bwydo ar ddigon o bryfed tri neu bedwar diwrnod arall dros y Sahara i Algeria.

Wrth hedfan 'nol mae'n wyrthiol fel y gallant gadw i fynd am ddiwrnodau heb fwyd na dŵr. O Foroco i Brydain taith ddau ddiwrnod fydd hi. Ond dros y pum mlynedd ar hugain diwetha' mae eu nifer sy'n cyrraedd wedi haneri, ac maent yn diflannu ar raddfa o 5% bob blwyddyn. Pam? Colli llefydd nythu, tywydd anffafriol bob cam o'r Affrig i Brydain, gôr-ddefnydd amaethyddol o laddwyr pryfed yn dileu eu bwyd. Mae'r golled o lefydd nytho yn allweddol. Clywir am osod toeau newydd i dai ar ystadau yn dileu cartrefi llawr o'r gwennoliaid ac ail wneud hen adeiladau yn achosi'r un golled.

Dyna'r argyfwng - ni all ein tai newydd gynnig cartref i'r wennol, oherwydd nid oes bellach yna dyllau lle gallant wneud nyth. Wrth ail wneud hen adeiladau mae'r tyllau eto'n diflannu. Felly heb gartref bellach ai dyma derfyn ar deyrnasiad y wennol ddu?

A ellir cynnig help iddynt? Gallwn oherwydd maent yn barod i ddefnyddio blychau nytho. Felly ymunwch a'r ymgyrch i gynnig help llaw iddynt. Ffurfiwyd Cylchoedd Gwennoliaid ym Mhrydain ac ar draws Ewrop. Cynigant gyngor am ddim felly defnyddiwch hwynt Gall y blychau nytho fod yn syml neu'n fwy cymhleth. Gellir prynu'r rhai syml a gellir gwneud rhai mwy cymhleth adre. Photo & drawing@Dick Newell / Action for swifts Gellir dechrau gyda blwch neu ddau adre cyn helaethu ymhellach. Edrychwch am gyfleoedd, yr ysgol leol, ysbyty, archfarchnad, gorsaf drenau, neu addoldy a hyd yn oed ystâd o dai newydd.

Am gyngor Cadwraeth y Gwennoliaid Du - www.swift-conservation.org
<<http://www.swift-conservation.org>>

Gweithredi dros y Wennol Ddu - <http://actionforswifts.blogspot.co.uk>

Felly prynwch neu gwnewch flwch a'i rhowch e' lan erbyn Mai 2022 cyn i'r gwennoliaid ddychwelid.

Edward Mayer

Gofynnwch! Ai Sepsis yw e'?

Cwestiwn syml iawn ond mi allai arbed bywyd.

Felly beth yw Sepsis? Gall fod yn berig bywyd wedi ei gychwyn gan heintiad, ond gellir ei drin ond ei ddal yn gynnar. Er hynny mae'n gyfrifol am 44,000 o farwolaethau'r flwyddyn, sy'n fwy na canchr y coluddyn, canser y fron a chanser y llorwedd gyda'i gilydd. Golyga hyn fod rhywun yn marw o Sepsis bob 5 munud.

Felly sut y gwyddom fod rhywun yn diodde' o Sepsis, sydd ar y cychwyn yn debyg iawn i'r ffliw. Os bu'r dwymyn ar rywun neu anaf septig ac wedyn yn diodde' o'r canlynol yna ffoniwch 999 ar unwaith i ddrwgdybio Sepsis ;-

Siarad yn aneglur ac yn ddryslyd.

Crynu'n ormodol a'r cyhyrau'n boenus.

Heb wneud dŵr ers 18 awr

Allan o anal yn gyfan gwbl.

Rhywun yn meddwl fod rhywbeth mawr o le ar y claf

Y croen yn britho ac edrych yn welw.

Felly o amau Sepsis mynnwch gymorth meddygol ar frys. Cofiwch os mae Sepsis yw e' gall pob awr fod yn dyngedfennol a'r gwahaniaeth rhwng byw a marw. Ceir mwy o wybodaeth o

www.sepsistrust.org <<http://www.sepsistrust.org>> neu ffonio 0800 389 6255

Carolyn Smethurst

Mabwysiadwch nant fach er mwyn helpi'r Afon Tywi ffynnu

Fel daw cyfyngiadau'r firws i ben mi allwn fentro mas i gwrdd â'r byd unwaith eto. Felly pan na wnewch gasglu ychydig gyfeillion i warchod rhan o'ch afon neu nant leol. Gwahoddir trigolion glannau'r Tywi i fabwysiadu nant leol neu ran o'r brif afon er mwyn cyfoethogi poblogaeth y pysgod a'r bywyd gwyllt arall dan y cynllun Mabwysiadwch Nant.

Mae'r nentydd yn ganolfannau silfa bwysig i feithrin pysgod, ond amharir ar hynny gan nifer o ffactorau. Daeth mwy a mwy o asid a llygredd ac atalfeydd i symudiad y pysgod, rhwystrau a dirywiad yn ansawdd y dŵr, nes bod yr afonydd yn llawer llai iachus. Felly bydd adfer y sefyllfa yn allweddol i wella'r pysgodfeydd, ansawdd y dŵr a'r fioamrywiaeth.

Mae'r cynllun eisoes ar waith gyda'r cymunedau lleol wrth i ni wynebu'r her o adnewyddu ac mae Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru yn gobeithio cynyddu nifer y cylchoedd yn y cynllun, er mwyn gwella ansawdd yr afon Tywi.

Dyweddodd Harriet Alvis Rheolwraig y Cynllun ;-

“Mae'r Tywi a'r afonydd sy'n ei bwydo yn rhan annatod o dirwedd Sir Gar ac yn hanfodol i'r holl fywyd sy'n bodoli ynddi ac o'i hamgylch. Er hynny gwelwyd dirywiad sylweddol yn niferoedd ein pysgod fel yr eog, sewin a'r llysywen Ewropeaidd. Bwriad ein cynllun yw wynebu nifer o'r rhesymau sy'n effeithio'r Tywi a'i llednentydd, ac ennyn gwerthfawrogiad o'u pwysigrwydd i'r cymunedau lleol gan eu hannog i gynnig helo llaw. Mae'r boblogaeth bysgod dan fygythiad enbyd felly unrhyw bell allwn ni wneud bydd yn gymorth iddynt”.

Os am ymuno a'r cynllun yna cysylltwch â Harriet ar harriet@westwalesrivertrust.org <<mailto:harriet@westwalesrivertrust.org>>

Eglwysi Llanpumsaint, Bronwydd a Llanllawddog

Ar hyn o bryd mae'n anodd rhoi manylion am wasanaethau'r dyfodol. Dibynna llawer ar hynt rhwystrau Covid ar y 7fed o Awst, a'r ffordd y dehonglir hwy gan yr Eglwys yng Nghymru. Y ffordd orau o gadw mewn cysylltiad yw drwy Facebook – <https://www.facebook.com/llanpumsaintbronwyddand> Llanllawddogchurches Gellwch edrych ar yr hysbysfwrdd y tu fas i'r adeiladau neu gysylltu â'r Parch Gaynor i_gaynor@hotmail.com <mailto:i_gaynor@hotmail.com>

Mae ein heglwysi'n rhan o Weinidogaeth Ardal sy'n cynnwys 11 eglwys - sef Llanpumsaint, Llanllawddog, Sant Celynin Bronwydd, Sant Alban Cwmdud, Dewi Sant Abergwili, Sant Pedr Caerfyrddin, Sant Ioan Caerfyrddin, Christchurch Caerfyrddin, Eglwys Newydd Cynwil Elfed, a Llangynnwr.

Wedi Awst 2021 cyflogir ond dau a hanner gweinidog rhan amser, ac un Curad i wasanaethu dros yr holl ardal. Rydym yn ddiolchgar am yr holl waith mae gwirfoddolwyr yn cyflawni yn ein heglwysi.

Ni ellir cymhari eglwysi'r dre ac eglwysi'r wlad, maent yn wahanol ac wedi profi effaith amrywiol o'r haint Covid. Er hynny daeth yn amlwg fod llwytho cyfleusterau at gynulleidfaoedd bychan iawn yn ddadleuol, yn enwedig os mae hynny yn godro'r gwasanaeth i' gynulleidfaoedd mwy eu maint. Cyfyng iawn yw ein hadnoddau felly'r neges yw defnyddiwch e' neu collwch e! Os am gadw ein gwasanaethau a'n gweithgareddau yn ein pentrefi yna mae'n rhaid bod ni yna ar bob cyfle. (Deallwn gall fod yna resymau da am fethu bod yn bresennol ar adegau ac felly bwriedir parhau gyda'r gwasanaethau Zoom).

Dros gyfnod yr Haf byddwn yn dathlu sawl priodas a bedydd yn ein heglwysi, ac yn falch fod pobl o hyd angen mewnbwn yr eglwys yn eu bywydau ar yr achlysurai hapus hyn, ond nid rhywbeth i fedydd, priodas neu angladd yn unig yw eglwys. Dyma safle addoli'r gymuned ond os na welir mewnbwn wythnosol gan y gymuned honno ni ellir cyfiawnhau cadw'r drysau ar agor. Heb yr addoli cymunedol awn yn ddim ond rhyw glwb cymdeithasol.

Cofnodir y bedydd cyntaf ar Gofrestr bresennol Eglwys Llanpumsaint ar Mai 14eg 1896. Bu ein heglwys yn ganolfan i fywyd y pentref a'r gymuned ers cannoedd o flynyddoedd, lle rhannwyd gorfoledd a galar. Gobeithio gyda'ch cefnogaeth y gallwn barhau i wasanaethu.

Parch Gaynor

Clwb Cant Llanpumsaint - Enillwyr Gorffennaf ag Awst

Gorffennaf - £20 rhif 12 - Arwel Nickolas. £15 rhif 83 - Luned a Dewi Davies

£190 rhif 18 – Dexter Penfold

Awst – £20 rhif 60 – Pamela Jones £15 rhif 111 – Patrick Thacker

£10 rhif 58 – Ann Wyke

Llongyfarchiadau i'r uchod a gwell lwc tro nesa' i'r gweddill –

Derick Lock Trysorydd 01267 253524

Llais Digidol B T

Derbyniodd nifer lythyr oddi wrth B T yn datgan ei bwriad i uwchraddio rhwydwaith ei llinell, hynny yw o'r wifren gopr i'r Llais Digidol newydd. Golyga hyn fydd eu holl alwadau ffôn yn cyrraedd drwy'r band eang yn unig. Felly os oes gennych larwm byrgler neu gyswllt meddygol dylech gysylltu â'ch cyflenwr er mwyn sicrhau i bethau fod yn parhau i weithio'n iawn.

Popeth yn iawn nes i chi ddarllen tudalen olaf y llythyr. Dywed os fydd yna doriad trydan collir nid yn unig y band llydan ond y gwasanaeth ffon hefyd. Felly i ni collir y wifri hefyd o'r ffon symudol, ac ni fyddwn yn gallu galw neb hyd yn oed Western Power i gwyno neu holi. Siaradais a B T a dywedwyd fod bosib cael pecyn Batri drosdro i bara am awr o amser. Mae'n swnio'n syniad da i mi, gan fydd modd cysylltu â Western Power ar 0800 096 0380 i ofyn pa bryd daw pethe'n ôl i fwcwl.

Carolyn Smethurst

Sgâm Arall i'w hanwybyddu

Neges o dvla-support-datagovuk-vehicle-support-center-gbeline.wouters@telenet.be

Y Sgâm

Dengys ein cofnodion nad ydych wedi talu treth eich cerbyd. Nodyn atgoffa a chyfle olaf yw hwn. Cofrestrwch eich cerbyd heddiw er mwyn osgoi trafferthion. Rhaid cofrestru hyd yn oed os ydych yn anabl. Rhaid cydymffurfio a'r holl ofynion cyfreithiol cyn gyrru. Cliciwch fan hyn i ddechrau. Os na gofrestrwch gall gostio hyd at £2000 i chi

Menter Gorllewin Sir Gâr

O dan yr amgylchiadau presennol, mae'r Fenter yn gweithio i ddarparu gweithgareddau/sesiynau i chi allu barhau i gymdeithasu a byw yn Gymraeg yn ddigidol ac wyneb yn wyneb yn unol â chyfarwyddiadau'r llywodraeth parthed cyfyngiadau.

Arweinwyr y Dyfodol

Mae'r Fenter ac Adran Plant a Phobl Ifanc Cyngor Sir Gâr yn cyflwyno cynllun Arweinwyr y Dyfodol yn rhithiol i bobl ifanc rhwng 14-18 oed. Dyma gyfle i ddatblygu sgiliau yn cynnwys trefnu a marchnata ac i weithio gyda sefydliadau a grwpiau yn y gymuned. Mae'n gyfle i ennill cymhwyster lefel 2 wrth ddysgu am waith ieuenctid a chymunedol. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru cysylltwch gydag alma@mgsg.cymru.

Helpydd Trysor:

Edrychwn ymlaen at ail-gyflwyno ein helpydd trysor dros yr haf. Mae'r Fenter wedi cydweithio gyda gwirfoddolwyr yr ardal i greu helpa drysor mewn 4 ardal yng Ngorllewin Sir Gâr, sef Llansteffan, Pont-Tyweli, Caerfyrddin a Hendygywyn-ar-Daf. Felly dewiswch ardal a chysylltwch gyda gwawr@mgsg.cymru er mwyn derbyn helpa. Bydd yr atebion yn cael eu cyhoeddi ar 30ain o Awst.

Cyfryngau Cymdeithasol/Social Media:

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol.

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Twitter - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

E-bost/Email - ceris@mgsg.cymru

neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch Ceris 07939 962042.

O Bontarsais lawr i'r Graig

Syniad i'n o'r Gwŷr Mowr gyda digonedd o arian a balchder 'nol yn y 1840degau oedd e', i agor hewl newydd sbon o Bontarsais lawr i'r Graig ac yna 'mhlân i bentre' Bronwydd. Mewn oes pan adeiladwyd ffordd newydd yn unig pan fyddai angen cysylltu pwll glo neu gwar cerrig neu garto rhywbeth i rywle, 'doedd na ddim rheswm amlwg i'r hewl newydd hon. Ar wahân i gysylltu rhai ffermydd cyfagos a'i gilydd, megis Bryncene, Pantglas a Pharce gyda llefydd fel Pentremawr, Pantyrasol a Threbwl gwelwyd mawr iawn o ddefnydd arni. A chwalwyd y syniad gwreiddiol o osod Tollborth ger cyffordd y Graig pan roddodd helynt Becca ddiweddglo sydyn ar yr holl drefn hynny.

Wrth i'r ugeinfed ganrif wawrio i weld cerbydau'n disodli ceffylau daeth rhagor i'w defnyddio, gan weld rhai'n teithio i'r felin yn Felin-fach; honno islaw'r hewl lle saif y ceffyl presennol yr ochor draw i bont bren dros Nant Brechfa. Yna tua chanol y ganrif agorwyd Tip Sbwriel ychydig i'r gogledd o Dy Wern gan Gyngor Dosbarth Caerfyrddin, a chyn hir gwelwyd mwy a mwy o lorïau'n cyrraedd i ollwng pob math o fudreddi yno, o fwydydd yn pydru i offer diangen. Aeth yr holl le i losgi'n farw a gollwng mwg drewlyd dros ardal y pentref a phardduo'r holl linellau dillad. Cymerodd daith brotest fawr drwy strydoedd Caerfyrddin gan drigolion Bronwydd i brysuero tranc yr anghenfil, diflannodd yr holl lorïau a daeth asynnod i bori'r lle yn y diwedd.

Yna wrth i drafnidiaeth gynyddu gyda mwy a mwy o geir ar yr hewl, daeth hon yn ffordd osgoi gyfleus pan fyddai yna ryw rwystr ar y brif ffordd o Lamed i Gaerfyrddin. Yna yn 2021 pan gaewyd y ffordd yn gyfan gwbl gan dirlithriad ger Felin-fach daeth y B4031 yn ddihangfa allweddol i drigolion ardal Nebo am fynd i'r dre. Troi yn Graig, lan heibio'r goleuadau dros dro ger yr hen Dip Sbwriel a dewis o hewlydd bach i ymuno a'r brif ffordd am Gaerfyrddin. Felly hefyd i drigolion Llanpumsaint, lan rhiw Llandre, heibio Brynmeillion i groesi'r B4031 yn ddi-ofn yn Pantybwci. Ganrif ynghynt cymaint fu ofn y Bwci byddai cerddwyr yn osgoi'r lle'n gyfan gwbl yn y tywyllwch.

Efallai wir i sawl un wneud sbri am ben y Gwŷr Mowr ariannog yn ei ddydd am greu'r fath ffolineb, ond erbyn y flwyddyn hon mae llawer yn ddiolchgar iddo am ei weledigaeth. Arbedodd sawl taith flinderus i yrwyr cerbydau o bob math yn 2021 i gadarnhau fod yna ddefnydd i bopeth yn y diwedd. Tebyg iawn byddai'r Hen Foi yn cyd-fynd fod hi bellach yn hen bryd atgyweirio'r hewl ger y Tip er mwyn gwaredi'r goleuadau dros dro.

Arwyn Thomas



Village Voice August 2021

Copy Date for next Edition 26th September 2021

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk

Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice and our website www.llanpumsaint.org.uk. We also receive funding from Llanpumsaint Community Council and all our advertisers. We thank them all for the support.



Meadow Brown Butterfly (Clare Bish)



Gatekeeper Butterfly (Clare Bish)

DID YOU KNOW

WHEN PARENTS ARRIVE ON A RNLI LIFEGUARDED BEACH THEY SHOULD TAKE THEIR CHILD/CHILDREN TO THE LIFEGUARD HUT WHERE THEY WILL EACH BE GIVEN, FREE OF CHARGE, A WRISTBAND. THE PARENTS MOBILE NO. CAN BE WRITTEN ON WRISTBAND IN WATERPROOF INK BEFORE IT IS AFFIXED TO THE CHILD.

THE CHILD SHOULD BE TOLD TO GO TO THE LIFEGUARD HUT IF 'LOST' AND LIFEGUARD WILL PHONE MOBILE NUMBER.

ALL RNLI LIFEGUARDS ARE DRB CHECKED.

**Peniel U12s
(2021/22 Season)
Are looking for new
players to join their
squad.
Please get in touch
with their Team
Manager - Emma on
07773 034461 for
registration forms.**



'New bridge Llansteffan – Ferryside! Arwyn Thomas



Checking River Health



Flying Swift c David Moreton



Simple Swift Box



Ermine Moth (Ray Davies)



Slow worm in Allotment Compost bin (Ray Davies)



Ospreys over Llanpumsaint



Sneaky Thief

Bell Boeing V-22 Ospreys

Llanpumsaint villagers thought they were dreaming seeing 3 of these stunning planes fly a loop over the village on Tuesday evening, 27th July. According to comments on the Llanpumsaint Facebook page, 'they are as rare as hen's teeth' and also incredibly noisy.

The Bell Boeing V-22 Osprey is an American multi-mission, tiltrotor military aircraft with both vertical take-off and landing and short take-off and landing capabilities. It's designed to combine the functionality of a conventional helicopter with the long-range, high-speed cruise performance of a turboprop aircraft. Further information and photos: https://en.wikipedia.org/wiki/Bell_Boeing_V-22_Osprey. Sandy Mather

Sneaky Thief

As a lot of Llanpumsaint residents we are avid bird watchers. We have invested in many bird feeders over the years many of which have been consigned to the bin, as being not fit for purpose. The latest so called magnificent specimen was duly filled with Sunflower hearts and placed in a bird friendly position. As the picture portrays squirrels are intelligent and very adept at getting into the so called "squirrel proof feeder". This little chap was seen on a wildlife camera opening the strong latch cover and helping himself lavishly to the contents.

Back to the drawing board! E and S Davies

Llanpumsaint Heartbeat

The 4 defibrillators in the Llanpumsaint area are at the following locations:

Outside the Village Hall SA33 6BZ

Outside the Railway Inn SA33 6BU

On the wall outside Henfryn on way to Ffynnon Henry SA33 6LD

Outside the Vestry at Nebo SA33 6HN

Note: You do not need a code to access the defibrillator

If anyone has a cardiac arrest the sooner CPR is given and defib used, the more likely the patient will survive. Every minute is important, and the ambulance service will talk you through this on the phone until the first responder arrives. This may be the local fire service who have been trained to do this and carry a defib in the cab. They will stay until the ambulance arrives.

The cardiac arrest suffered by Christian Eriksen, Danish footballer at the Euro 2021 in June brought the issue to everyone's attention when it was shown on TV this year.

So what is a cardiac arrest? It is not the same as a heart attack – a cardiac arrest is when the heart stops pumping blood causing loss of consciousness and cessation of breathing. As Dr Sonya Babu-Narayan, Associate Director, British Heart Foundation said 'A cardiac arrest can strike anyone, anywhere, anytime without warning and even be the first sign of a heart problem'

If you are not sure about using a defibrillator, you can borrow a training pack from me to show you and the family how to give CPR and how to use the defibrillator. A defib will not work if it detects a heartbeat, so that are safe for you to use.

Although none of the village defibrillators have been used since they were installed, you never know when you might need to help, so just going through the process with a training pack may help you and your family save a life. Carolyn Smethurst 01267253308, info@gwilimill.com

This small committee needs your help in providing this important service to the village. If you can help, please contact me at carolynsmethurst@btinternet.com, or phone 01267 253308 Many thanks.

LLANPUMSAINT & NEBO SHORT MAT BOWLING CLUB

As the Country is now opening up slowly we are hopeful that bowls will return to the village hall in September but we will have to undertake a comprehensive COVID-19 Risk Assessment and adhere to the return to play guidelines.

When we have any updates we will contact our members and publish on our website

Llanpumsaintsmbc.org.uk

The Club meets in the Hall for practice on Monday and Thursday evenings from 7.30-9.30 p.m. from September until the end of April. New players are always welcome between the ages of 11 and 99, we have qualified coaches on hand to provide help and encouragement.

For further information please phone our Chair Derick Lock on (01267) 253524 or our Secretary Jill Edwards on (01267) 253474

Llanpumsaint Welfare and Recreation Association – July Update

Summer is in full swing in Llanpumsaint Park, and it was fantastic to see a huge turnout of volunteers to help with the clean-up morning held on the 10th of July. The entire committee is so thankful for everyone who helped spruce up the park, including cleaning down of all play equipment and benches, painting of all fences and gateways as well as clearing of the tennis courts ready for summer tennis season.

We are also excited to announce a brand-new money raising challenge. Between Saturday the 21st of August and the 30th of August Bank Holiday Monday, we would like the whole of the community to try and collectively walk the equivalent of 1000 miles around the park. That's 5000 laps in total!

Whether you get sponsored to walk a single lap or feel particularly sporty and want to do a set amount of laps per day over the ten day period, it's up to you. The sponsor form is included in the 'CentreFold' so please pull that out and start walking. All we ask is that it is done on foot and not by bicycle or vehicle! We shall count all laps made at the end of the ten days. All money raised will be split between the Peony Breast Care Unit Llanelli, and to continue funding the general upkeep of the park.

